

Llyfrau Braslunio Consertina a Sgets-Gerdded: Canllaw Cam wrth Gam gan Karen O'Shea, artist tecstilau

I wneud llyfr braslunio consertina, bydd angen i chi gael:

Ffon glud

Cardfwrdd ar gyfer y clawr (e.e. bocs grawnfwyd)

Siswrn

Hen bapurau sydd ddim yn sgleiniog (e.e. hen amlenni, hen lythyrau neu bost sothach)

Dull:

Torrwch glawr o'r cerdyn a'i wneud yn ddigon mawr i'w blygu'n hanner i wneud clawr cefn a blaen. Mae 10cm x 12cm yn faint da wedi'i blygu.

Torrwch y papurau fel bod eu huchder yn ffitio o fewn y clawr. Gallan nhw fod o unrhyw led.

Gludwch un darn o bapur i'r nesaf sy'n cyfateb i tua 6 i 10 gwaith lled y clawr.

Gludwch ymyl chwith y papur hir i mewn i ymyl fewnol agosaf clawr y llyfr. Wynebwbwch ochr patrymog y clawr tua mewn er mwyn i chi allu ychwanegu teitl i'r clawr tu allan.

Gan blygu nôl ac ymlaen mewn arddull consertina, crëwch dudalennau sy'n ffitio o fewn eich llyfr nes bod y sribyn o bapur wedi'i ddefnyddio i gyd.

Ar gyfer sgets-gerdded, bydd angen i chi gael:

Llyfr braslunio consertina (neu unrhyw lyfr braslunio arall!)

Tua 3 teclyn i wneud marciau (e.e. pensiliau, beiros, paent gyda brwsh a dŵr, siarcol neu greonau). Gall cyfyngu'r palet i tua 3 lliw nid yn unig greu effaith well, ond hefyd fod yn llai i'w reoli tra'n cerdded.



Gall bag ysgwydd neu ddilledyn â phocedi mawr fod yn ddefnyddiol i estyn y teclynnau i wneud marciau heb orfod plygu i lawr yn ormodol.

Dewiswch ddiwrnod sych heb ormod o wynt. Meddyliwch am esgidiau a dillad sy'n addas i'r tywydd. Cadwch at lwybrau sydd wedi'u marcio a rhowch ystyriaeth i'ch diogelwch.

Bant â chi a phan welwch chi rywbeth sy'n dal eich llygad, stopiwch am ychydig funudau i'w fraslunio. Mae pobl yn aml yn cynhyrchu eu gwaith gorau tra'n gweithio'n gyflym ac yn reddfod. Po fwyaf aml y byddwch chi'n braslunio, y gorau fydd eich llun.



Os nad oes amser gyda chi i wneud llyfr consertina, neu os oes gwell gennych lenwi llyfr braslunio, beth am ystyried rhannu eich tudalen yn ffenestri llai i roi eich siwrnai ar gof a chadw.



Pob hwyl gyda'r sgets-gerdded!

www.karenoshea.co.uk karenosheaart

ar y cyfryngau cymdeithasol

